# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-11-06(p6)

**Dyddiad:** **Dydd Iau 6 Gorffennaf 2006**
**Amser:** **9.30am tan 12.30pm**
**Lleoliad:** **Canolfan Adnoddau a Gwybodaeth White Rose, Tredegar Newydd**

## Teitl: Adroddiad Blynyddol 2005-06 CAFCASS Cymru

### Diben

Darparu manylion cynhwysfawr i'r Pwyllgor am gynnydd CAFCASS CYMRU yn ystod 2005-06.

### Crynodeb / Argymhellion

Ar 20fed Hydref 2005, cyflwynwyd Adroddiad cynnydd chwe mis i'r Pwyllgor a oedd yn dwyn sylw at gynnydd CAFCASS CYMRU yn dilyn ei drosglwyddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel rhan o'r Fframwaith Atebolrwydd a gytunwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ystod 2005-06, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a nodi'r cynnydd a wnaed ers yr Adroddiad diwethaf.

### Y Cefndir

Mae gan CAFCASS CYMRU gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yw'r elfennau pwysicaf mewn Gweithredoedd Teulu, bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn briodol, bod y penderfyniadau y bydd Llysoedd yn eu gwneud yn eu cylch eu budd iddynt a bod hwy a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth drwy gydol y broses, waeth pa ffurf sydd ar eu teulu yn y byd modern.

Prif ddyletswyddau CAFCASS, fel y'u nodwyd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000, o ran Gweithredoedd Teulu lle mae lles plentyn/plant dan sylw, neu yn gallu bod dan sylw, yw:

Diogelu a hybu lles plant.

Rhoi cyngor i unrhyw Lys am unrhyw geisiadau a wnaed iddo mewn gweithredoedd o'r fath.

Darparu cynrychiolaeth i blant.

Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd.

## Ystyriaeth

Mae staff CAFCASS CYMRU yn atebol i'r Llysoedd Teulu, gan gynnwys y Llysoedd Gweithredoedd Teulu, y Llys Sirol a'r Uchel Lysoedd mewn perthynas ag ymyrryd yn achosion sy'n ymwneud â phlant. Nodwyd grymoedd a dyletswyddau CAFCASS CYMRU yn Neddf Plant 2004, Deddf Achosion Domestig a Llysoedd Ynadon 1978, Deddf Cipio a Chadwraeth Plant 1985, Deddf Plant 1989, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ac amrywiaeth o reoliadau a Rheolau Llys a wnaed yn ôl y gofynion hynny.

Y gwahaniaeth pwysig rhwng Swyddogion Gweithredoedd Teulu Cymreig (Welsh Family Proceedings Officers) a swyddogion eraill y Cynulliad yw bod swyddogaethau statudol ar wahân gan Swyddogion Gweithredoedd Teulu Cymreig, sy'n annibynnol ar y Cynulliad. Ni all y Cynulliad ymyrryd ag ymarfer y swyddogaethau hyn.

## Yr Adroddiad Blynyddol

Mae'r ddogfen atodedig yn cwmpasu Adroddiad Blynyddol CAFCASS CYMRU.

Mae'r Adroddiad yn darparu trosolwg cynhwysfawr ar faterion a effeithiodd ar CAFCASS CYMRU yn ystod 2005-06. Yn gryno, mae'r ddogfen yn darparu gwybodaeth am:

Rôl a chyfrifoldebau CAFCASS CYMRU

Strwythur a staff y sefydliad

Darparu gwasanaethau a'r galw am wasanaethau yn ystod 2005-06

Perfformiad Cyffredinol yn ystod 2005-06

Gwella ansawdd gwasanaethau

Cynnwys plant a phobl ifanc

Datblygu darpariaeth gwasanaethau

Cefnogi darpariaeth gwasanaethau

Perthynas â phartneriaid a rhanddeiliaid

Cynnydd ar gynllun gwaith 2005-06

Cyfeiriad CAFCASS CYMRU yn y dyfodol

## Cydsyniad

10. O 1 Ebrill 2005, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am swyddogaethau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dan Ran 4 Deddf Plant 2004, ac mae adran 35(1) yn rhoi'r un dyletswyddau i'r Cynulliad mewn perthynas â Gweithredoedd Teulu lle mae lles plentyn/plant sydd fel arfer yw byw yng Nghymru dan sylw, neu'n gallu bod dan sylw

## Goblygiadau Ariannol

11. Dim yn deillio o'r papur hwn.

## Themâu Trawsbynciol

12. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

## Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

13. Nodi'r cynnydd diweddaraf ar waith CAFCASS CYMRU a chyfeiriad yn y dyfodol.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio